Cylchlythyr Rhif 7, 2019/2020
*Newsletter No 7*
14.2.20

YSGOL GYMRAEG Ifor Hael "Llwybr Llwyddiant"

@iforhael



Mae eich plant wedi bod yn wych trwy'r hanner tymor diwethaf yma ac rydw i'n falch iawn ohonyn nhw gyd. Mae pawb wedi blino'n lan erbyn hyn felly mwynhewch eich hanner tymor haeddiannol.
Aeth criw o'n plant i ddawnsio yng Ngwyl Dawnsio DDMIX a daethon nhw'n gyntaf! Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!
Os hoffech ragor o newyddion am weithgareddau'r ysgol, ewch i'n tudalen trydar - @iforhael.

*Your children have been fantastic throughout this half term and I'm very proud of them all. We are all now looking forward to resting over the half term holidays – enjoy!*
*A dance team took part in the DDMIX Dance Festival and came first! Huge congratulations to them!*
*If you would like to hear more news about the school's activities, go to our twitter page - @iforhael.*

## Wythnos Iaith a Diwylliant / *Language and Culture Week 24-28.2.20*

Byddwn yn dathlu ein diwylliant, iaith a threftadaeth trwy lawer o weithgareddau megis barddoniaeth, celf a cherddoriaeth. Cynhelir Eisteddfod yr ysgol ar ddydd Gwener (28.2.20) er mwyn gwobrwyo enillwyr yr eitemau'r dosbarthiadau, y Bardd buddugol (blwyddyn 6,) a gweithgareddau ysgol. Felly, dylai plant ddod i'r ysgol y dydd Gwener hynny, yn eu gwisgoedd Cymreig.

*We will be celebrating our Welsh culture, language and heritage with many interesting activities including poetry, art and music. Our school Eisteddfod will also be held on Friday (28.2.20) to award the winners of the class items, the successful Year 6 poet (for the bardic chair), and school activities. Children should therefore come to school in their Welsh costumes on that day.*

**Dyddiadau / *Dates***

| **17-21.2.20** | **HANNER TYMOR / *HALF TERM*** |
|---|---|
| 24-28.2.20 | Wythnos dathlu Cymru Cŵl<br>*Cool Cymru Week* |
| 28.2.20 | Dathlu Dydd Gŵyl Dewi<br>*St David's Day Celebrations* |
| **3.3.20 & 4.3.20** | **Nosweithiau Rhieni**<br>***Parent Evenings*** |
| 5.3.20 | Dathliadau Diwrnod y Llyfr<br>*World Book Day Celebrations* |
| 6.3.20 | Gwasanaeth dosbarth **Bili Broga** am 9.30yb – croeso i rieni<br>***Bili Broga's*** *Class Assembly @ 9.30am – parents welcome* |
| 7.3.20 | Eisteddfod Gylch<br>*Area Eisteddfod* |
| 9-13.20 | Wythnos Cadw'n Iach<br>*Sport Relief* |
| 13.3.20 | Gwasanaeth dosbarth **Sali Sws** am 9.30yb – croeso i rieni<br>***Sali Sws'*** *Class Assembly @ 9.30am – parents welcome* |
| 20.3.20 | Gwasanaeth dosbarth **Elfed Eliffant** am 9.30yb – croeso i rieni<br>***Elfed Eliffant's*** *Class Assembly @ 9.30am – parents welcome* |
| 27.3.20 | Gwasanaeth dosbarth **Mili Malwen** am **11.15yb** – croeso i rieni<br>***Mili Malwen's*** *Class Assembly @* ***11.15am*** *– parents welcome* |
| 28.3.20 | Eisteddfod Sir<br>*County Eisteddfod* |
| 3.4.20 | Diwrnod olaf cyn Pasg<br>*Last day before Easter break* |

## Diwrnod y Llyfr Dydd Iau 5.3.20/ *World Book Day: Thursday – 5.3.20*

Dewch i'r ysgol wedi gwisgo fel eich hoff gymeriad o'ch hoff lyfr. Cynhelir gweithgareddau darllen yn ystod y dydd er mwyn sicrhau bod y plant i gyd yn mwynhau darllen.

*Come to school dressed as your favourite book character. Reading activities will be held throughout the day in order to encourage the children to enjoy reading.*

## Profion Cenedlaethol i blant Bl 2-6 / *National Tests for pupils in Yrs 2-6*

Mae'r profion darllen a rhifedd bellach wedi'u newid o brawf papur i brofion addasol ar-lein. Mae'r prawf rhesymu yn dal i fod ar ffurf papur a byddwn yn ei weinyddu yn ystod y ffenestr brofi sydd rhwng **28 Ebrill a 5 Mai**. Gweinyddir y profion addasol yn ystod yr amser sydd fwyaf addas ar gyfer athrawon a disgyblion a rhoddir y canlyniadau i rieni cyn diwedd tymor yr haf. Erbyn blwyddyn nesaf, bydd pob prawf ar-lein.

*Both the reading and numeracy tests have now been changed from a paper-based test to online adaptive tests. The reasoning test is still paper based and we will be administered during the testing window between* ***28th April to 5th May.*** *The adaptive tests will be administered during a time most suitable for both teachers and pupils and the results will be given to parents before the end of the summer term. By next year, all the tests will be online.*

*Please follow the links below for more information.*

https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/reading-and-numeracy-assessments/personalised-assessments-information-for-parents-and-carers/

*https://youtu.be/A8TLV_vOXwQ*

*https://youtu.be/1lW9FBWPOD0*

*https://youtu.be/edtoLqaOmO4*